**MEMORANDWM CANIATÂD DEDDFWRIAETHOL**
**MESUR ADDYSG A SGILIAU**

## Cynnig Caniatâd Deddfwriaethol

1. "Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Mesur Addysg a Sgiliau, mewn perthynas â derbyniadau i ysgolion, i'r graddau y mae'r darpariaethau hyn yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru."

## Cefndir

2. Gosodwyd y Mesur uchod ger bron gan Jane Hutt, Gweinidog Cymru dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau dan Reol Sefydlog 26.4 Rheolau Sefydlog ("SO") Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("CCC"). Gosodir y memorandwm hwn dan SO 26.2. Mae SO 26 yn pennu bod angen gosod Cynnig Caniatâd Deddfwriaethol ger bron, a bod angen gosod Memorandwm Caniatâd Deddfwriaethol â'r CCC os yw Mesur Seneddol DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y CCC.

   Cyflwynwyd Mesur Addysg a Sgiliau'r DU ar Dachwedd 28 2007. Gallwch weld y Mesur ar:

   http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200708/cmbills/012/08012.i-v.html

## Crynodeb o'r Mesur ac Amcanion ei Bolisïau

3. Noddir y Mesur Addysg a Sgiliau ("y Mesur") ar y cyd gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF) a'r Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau (DIUS), â'r DCSF yn Adran arweiniol. Prif ddiben y Mesur yw, yn Lloegr yn unig, codi'r oedran y gall person ifanc adael addysg neu hyfforddiant i 18 oed. Bydd y Mesur yn cynnwys rhai darpariaethau sy'n gweithredu Arolwg Sgiliau Leitch yn Lloegr. Ymhlith y darpariaethau eraill yn y Mesur y mae trosglwyddo pwerau a dyletswyddau mewn perthynas â chofrestru ysgolion annibynnol o'r DCSF i Ofsted. Mae'r Mesur yn cynnwys nifer o ddarpariaethau bychan ar gyfer Cymru mewn perthynas â rhannu data a chymwysterau a chwricwlwm.

4. Mae'r Mesur hefyd yn cynnig darpariaethau i roi pwerau creu deddfau i'r Cynulliad mewn perthynas â rheoli ysgolion annibynnol ac arolygu addysg a hyfforddiant i'r rhai hynny sy'n 16 oed, drwy ychwanegu materion at faes Addysg a Hyfforddiant, Atodlen 5, Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("GOWA 2006").

**Darpariaethau yn y Mesur y ceisir caniatâd ar eu cyfer**

5. Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r Mesur yn ymdrin yn bennaf â materion sy'n berthnasol i Loegr yn unig. Fodd bynnag, drwy ddiwygiadau'r Llywodraeth a gynhwyswyd yn y Mesur ar Chwefror 29 a Mai 13 2008, mae rhan o'r Mesur bellach yn darparu ar gyfer newid cymharol fychan i drefniadau derbyniadau i'r chweched dosbarth yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Mesur hefyd yn ailddatgan y gyfraith ar gyfer derbyniadau i ysgolion mewn perthynas â Chymru drwy ddiwygio'r rhannau perthnasol o'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("SSFA 98") fel y byddant yn ddarpariaethau i Gymru yn unig.

6. Mewn perthynas â derbyniadau i'r chweched dosbarth, gall rhieni ar hyn o bryd fynegi dewis o ysgol benodol i'w plentyn (gan gynnwys yr ysgol y mae'r disgybl yn ei mynychu eisoes). Bydd y Mesur yn fodd i'r person ifanc, yn ogystal â'r rhiant, gael yr hawl i fynegi dewis ac i gael yr hawl canlynol i apelio os bydd yn cael gwrthod lle mewn chweched dosbarth. Cred Llywodraeth Cynulliad Cymru ei bod yn werth defnyddio'r cyfle sydd yn y ddeddfwriaeth hon fel bod y ddarpariaeth hon yn gymwys hefyd mewn perthynas â Chymru.

7. Mae gan CCC gymhwysedd deddfwriaethol eisoes dan fater 5.3 yn Rhan 1 Atodlen 5 i GOWA 2006 i wneud "darpariaeth am dderbyn disgyblion i ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol " ac oherwydd hynny, mae angen cytundeb y CCC dan SO 26. Mae SO 26 yn pennu bod angen cyflwyno a gosod Mesur a Memorandwm Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCM), yn y drefn honno, gerbron y CCC os yw Mesur Seneddol DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y CCC. Fodd bynnag, nid oes angen LCM os yw darpariaethau o'r fath yn rhai mân, canlyniadol, trosiannol, darfodol, atodol neu'n rhai sy'n gwneud arbedion. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried bod y darpariaethau hyn mewn perthynas â derbyniadau i ysgolion yn dod o dan yr eithriadau hyn ac felly mae angen LCM .

8. Mae sicrhau bod darpariaethau chweched dosbarth hefyd yn berthnasol i Gymru yn gyson â strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â hawliau'r plentyn. Mae hefyd yn gyson â'r uchelgais, y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhannu â Llywodraeth y DU, o annog cyfranogaeth mewn addysg. Yr unig beth a wna'r diwygiadau i SSFA 98 yw ailddatgan y gyfraith ar gyfer derbyniadau i ysgolion mewn perthynas â Chymru drwy eu gwneud yn ddarpariaethau i Gymru yn unig.

**Manteision defnyddio'r Mesur hwn**

10. Gellid ymdrin â'r darpariaethau yn y Mesur mewn perthynas â derbyniadau i'r chweched dosbarth a derbyniadau i ysgolion mewn Mesur CCC wedi'i lunio dan fater 5.3. Atodlen 5 i GOWA 2006. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, cred Llywodraeth Cynulliad Cymru mai Mesur y DU yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf addas a chymesur i ddelio â'r darpariaethau hyn. Bydd manteisio ar y cyfle a ddarperir gan y Mesur yn fodd i'r darpariaethau hyn fod yn berthnasol yng Nghymru cyn gynted ag sy'n bosibl ac ni fydd yn golygu fod disgyblion chweched dosbarth yng Nghymru dan anfantais o'u cymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr. Gallai disgwyl i ddarpariaethau tebyg gael eu cynnwys mewn Mesur arwain at oedi ac, o ystyried natur cymharol fychan y darpariaethau, nid ydym yn credu y byddai cynnwys y darpariaethau hyn mewn Mesur yn ddull cymesur nac yn ddefnydd effeithiol o amser ac adnoddau CCC.

**Goblygiadau ariannol**

14. Mae costau gweinyddol [cyfyngedig?] yn gysylltiedig â chyflwyno'r ddarpariaeth hon a phe nodwyd unrhyw gostau ychwanegol byddent yn cael eu talu o gyllidebau sydd eisoes yn bodoli.

Jane Hutt
Gweinidog Cymru dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Mehefin 10 2008